RILY

Disney

Y

LLEW FRENIN

Cwestiynau i ysgogi sgwrs

- Wnest ti fwynhau'r stori? Pam / pam lai?
- Pa ran o'r stori wnest ti ei mwynhau fwyaf?
- Oedd yna ran / rannau o'r stori na wnest ti eu mwynhau?
- Sut oedd y stori'n gwneud i ti deimlo?
- Alli di feddwl am dri ansoddair i ddisgrifio'r stori?



- Pa anifail oedd dy ffefryn? Pam?
- Mae 'bod yn ddewr' golygu gwahanol bethau i bawb. Wyt ti'n nabod rhywun dewr? Beth sy'n eu gwneud nhw'n ddewr, yn dy farn di?
- Wyt ti'n cofio amser pan fuest ti'n ddewr?
- Yn y stori, mae'r tiroedd yn llawn anifeiliaid o bob math. Mae rhai ohonyn nhw'n mynd yn brin yn y byd go iawn. Wyt ti'n gwybod rhywbeth am anifeiliad prin? Alli di feddwl am rai anifeiliaid prin? Pam eu bod nhw'n prinhau?
- Mae Timon yn dweud wrth Simba, "Paid â phoeni". Yn y ffilm, mae'r cymeriadau yn canu hyn, Hakuna Matata (ffordd o ddweud hyn yn iaith Swahili), er mwyn codi gwên, ac er mwyn i Simba deimlo'n fwy cysurus. Mae canu, dawnsio, arlunio, chwarae offeryn, neu symud y corff yn gallu codi ein hwyliau. Pa weithgareddau sy'n dy wneud di'n hapus, ac yn codi dy galon?